WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 242A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Helen Keatley, Jeremy Evans a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddull effeithiol o benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau a'u cyflawni ar y cyfan, ond mae cyfleoedd i wella tryloywder a chysondeb trefniadau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu amgylchedd a diwylliant i annog a galluogi newidiadau sylweddol i wasanaethau 6

Mae'r Cyngor wedi nodi canllawiau clir ar gyfer llywodraethu'r gwaith o newid gwasanaethau, ond nid yw pwyllgorau craffu bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i adolygu a herio penderfyniadau 7

Nid oes gan y Cyngor ddull cyson o gynnal arfarniadau o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau 8

Mae gan y Cyngor brosesau datblygedig ar waith er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau 9

Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith newidiadau i wasanaethau 10

Nid yw dull y Cyngor o adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn ddigon clir 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus y maent yn atebol iddynt, yn ymgysylltu â nhw a, lle y bo'n briodol, yn arwain eu cymunedau.’[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol, yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau, yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.’[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer ‘Delivering good governance in local government’ fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio

[1] CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007

[2] Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru

rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt, ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau a ystyriwyd roedd:

- Ailstrwythuro'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol
- Penderfyniadau i gau cartrefi preswyl a chartrefi gofal a rhoi Cyfleusterau ‘Gofal Ychwanegol’ yn eu lle
- Ad-drefnu'r Gwasanaethau Stryd sy'n cwmpasu'r sir gyfan.

6 Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad fod **gan y Cyngor ddull effeithiol o benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau a'u cyflawni ar y cyfan, ond bod cyfleoedd i wella tryloywder a chysondeb trefniadau.**

# Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r tri chynnig ar gyfer gwella sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu drwy sicrhau'r canlynol:<br><br>C1 Dylai Pwyllgorau Craffu fanteisio'n well ar gyfleoedd i herio cynigion a phenderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.<br><br>C2 Dylai swyddogion weithio gyda chynghorwyr i nodi lefel y wybodaeth y mae cynghorwyr am ei gweld am opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn fwy tryloyw.<br><br>C3 Dylai'r Cyngor adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a chylch gorchwyl y Gweithgor Adolygu Corfforaethol er mwyn egluro eu priod gyfrifoldebau am asesu ac adolygu trefniadau llywodraethu. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor ddull effeithiol o benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau a'u cyflawni ar y cyfan, ond mae cyfleoedd i wella tryloywder a chysondeb trefniadau

### Mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu amgylchedd a diwylliant i annog a galluogi newidiadau sylweddol i wasanaethau

8 Mae'r Cyngor wedi creu diwylliant 'gallu gwneud' sy'n annog ac yn helpu gwasanaethau i feddwl yn greadigol am newid. Mae'r diwylliant hwn yn galluogi gwasanaethau i ystyried cyfleoedd a dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae'n amlwg bod yr angen i arbed arian yn gatalydd i gyflymu'r agenda wella ar hyn o bryd, ond bu'r Cyngor yn ysgogi newid i wella ansawdd gwasanaethau ers blynyddoedd lawer.

9 Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn chwarae rhan hanfodol o ran rheoli ac ysgogi newidiadau i wasanaethau; o herio'r cynigion ar gyfer pennu cyllidebau drwy adolygiadau cymheiriaid mewnol i adolygu'r cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau ar y cyd â'r Bwrdd Gweithredol. Pennir prosiectau newid strategol i aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol hefyd, er enghraifft, bydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yn noddi prosiect sy'n ymwneud â strategaeth ddigidol y Cyngor a gweithio ystwyth.

10 Gall gwasanaethau ddefnyddio rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid y Cyngor i'w helpu i newid gwasanaethau. Mae'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid yn cynnig cymorth, adnoddau ychwanegol ac arbenigedd ar gyfer ailgyflunio prosesau gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy ddileu camau diangen mewn prosesau gan ddefnyddio meddylfryd systemau 'darbodus'. Mae'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid wedi helpu amrywiaeth eang o wasanaethau i newid, gan arwain weithiau at ddyfarnu Gwobr Trawsnewid, Arloesi a Newid i wasanaeth pan fu rhaglen yn arbennig o lwyddiannus o ran sicrhau newid cadarnhaol. Mae Bwrdd a Thîm Trawsnewid, Arloesi a Newid wedi'u sefydlu ac, felly, mae gan y rhaglen drefniadau llywodraethu da ar gyfer goruchwylio'r broses o'i datblygu a'i rhoi ar waith.[3]

11 Mae'r Tîm Trawsnewid, Arloesi a Newid, sy'n cydweithio â gwasanaethau, yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn elfen allweddol o lwyddiant y rhaglen. Mae swyddogion mewn meysydd gwasanaeth sydd wedi profi'r prosesau Trawsnewid, Arloesi a Newid wedyn yn gweithredu fel 'cenhadon' ac ymarferwyr a all, yn eu tro, helpu

[3] Swyddfa Archwilio Cymru - Assessment of Transform Innovate and Change Programme, Mai 2015

gwasanaethau eraill i ddatblygu a chyflawni newidiadau ac ymgorffori a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ysgogi newid ym mhob rhan o'r sefydliad.

12 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen i'w ddull cyffredinol o newid gwasanaethau addasu er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[4]. Mae hon yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac fe'i nodir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2016-17. Canolbwyntir yn bennaf ar ddatblygu dogfen Asesu'r Effaith ddiwygiedig a fydd yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â gofynion deddfwriaethol eraill megis Cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Defnyddir yr asesiad o'r effaith wrth ddatblygu unrhyw newidiadau i wasanaethau o fis Mawrth 2017 ymlaen ynghyd â thempledi diwygiedig eraill Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol megis: cynlluniau busnes, y Cynllun Cyllidebol tair blynedd a gwybodaeth am Gynigion Cyllidebol. Mae rhai cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau eisoes wedi dechrau ystyried yr effaith o ran amcanion llesiant ac mae'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid yn parhau i annog a chefnogi cymhwyso cynaliadwyedd ym mhob proses newid.

## Mae'r Cyngor wedi nodi canllawiau clir ar gyfer llywodraethu'r gwaith o newid gwasanaethau, ond nid yw pwyllgorau craffu bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i adolygu a herio penderfyniadau

13 Mae'r Cyngor wedi nodi canllawiau clir ynghylch a ddylai newidiadau i wasanaethau fod yn destun proses gwneud penderfyniadau gan gynghorwyr neu a all swyddogion weithredu o dan drefniadau dirprwyo. Mae'n dosbarthu cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn gynigion ‘Rheoli’ (dim newid canfyddadwy i lefel gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir na pholisi'r Cyngor) neu'n gynigion ‘Polisi’ (cynigion ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd neu ad-drefnu gwasanaethau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y darperir gwasanaethau). Disgwylir i swyddogion ddefnyddio penderfyniadau wedi'u dirprwyo er mwyn sicrhau bod newidiadau ‘Rheoli’ yn digwydd mor gyflym â phosibl, tra bod y cynigion ‘Polisi’ yn destun y broses gwneud penderfyniadau gan gynghorwyr.

14 Caiff pob cynghorydd y cyfle i graffu ar y gyllideb a'r cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau a'u herio yn y seminarau blynyddol ar gynigion cyllidebol. Mae'r seminarau yn broses ddwyffordd ddefnyddiol ac effeithiol a ddefnyddir i roi digon o wybodaeth i'r cynghorwyr a'u haddysgu am gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau ac, felly, gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau. Nid yw'n

[4] Pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2015 ac mae'n nodi pum ffordd allweddol o weithio y mae'n rhaid i'r 44 o gyrff statudol yng Nghymru eu mabwysiadu sef: integreiddio, cynnwys, cydweithio, hirdymor ac atal.

orfodol mynd i'r seminarau ond disgwylir i'r cynghorwyr wneud pob ymdrech i gymryd rhan; ar gyfartaledd mae 44% o'r cynghorwyr yn mynd i'r seminarau.

15 Mae'r Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn deall bod angen gweithio'n agos gyda swyddogion arweiniol eu portffolios ar newidiadau i wasanaethau. Mae hyn yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ac ateb heriau ac mae'n sicrhau y gallant gael eu dwyn i gyfrif gan bwyllgorau craffu neu gyfarfodydd llawn o'r Cyngor. Mae Aelodau'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd fel grŵp er mwyn cyfnewid gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau o fewn eu portffolios a cheisio rhagweld unrhyw wrthdaro neu ddyblygu posibl rhwng cynigion. Maent hefyd yn chwilio am gyfleoedd i wasanaethau gydweithio i gyflawni newid.

16 Caiff pwyllgorau craffu gyfle i ystyried cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau a gwneud unrhyw argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Er nad yw rhai pwyllgorau craffu ym manteisio ar y cyfle i herio penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau, pan fanteisir ar gyfleoedd i wneud hynny, ar y cyfan maent yn effeithiol o ran craffu ar benderfyniadau a'u herio'n drylwyr. Gwneir defnydd effeithiol o grwpiau Gorchwyl a Gorffen Craffu hefyd, am eu bod yn gallu canolbwyntio ar ddatblygu a chwblhau prosiectau penodol.

17 Yn ddiweddar cymerodd y Cyngor gamau i sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar ei ddogfennau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn gwella'r defnydd a wneir ohonynt a'u heffeithiolrwydd. Gwnaeth hyn drwy wella hygyrchedd y dogfennau a hyrwyddo eu defnyddio mewn adroddiadau.

## Nid oes gan y Cyngor ddull cyson o gynnal arfarniadau o opsiynau wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau

18 Gan nad oes unrhyw fframwaith corfforaethol, canllawiau na meini prawf i gefnogi dull gweithredu safonedig, mae prosesau arfarnu opsiynau yn amrywio rhwng meysydd gwasanaeth. Er enghraifft, mewn rhai achosion mae'r dull o arfarnu opsiynau yn un cynhwysol; gydag uwch reolwyr yn cynnwys swyddogion, staff rheng flaen, ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol mewn trafodaethau arfarnu opsiynau. Mae trafodaethau neu brosesau arfarnu opsiynau eraill yn llai llawer cynhwysol ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang. Gall yr amrywiadau hyn arwain at y sefyllfa lle mae rhai cynghorwyr yn ansicr ynghylch pa brosesau arfarnu opsiynau sydd wedi'u cynnal mewn gwirionedd, a beth oedd canlyniadau trafodaethau.

19 Mae'r diffyg eglurder ymddangosiadol hwn yn cael ei waethygu pan gyflwynir opsiynau cyfyngedig i'r cynghorwyr, neu pan fydd rhai opsiynau wedi'u dileu'n gyfan gwbl o'r wybodaeth a ddarparwyd i'r cynghorwyr. Nododd rhai cynghorwyr a gyfwelwyd gennym mai dim ond un cynnig ar gyfer newidiadau i wasanaethau a gynigir weithiau, gan eu gadael i ddyfalu a oedd opsiynau neu ddewisiadau amgen eraill wedi'u hystyried. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar allu'r cynghorwyr i feithrin

dealltwriaeth lawn o'r materion ac effaith bosibl newidiadau i wasanaethau er mwyn eu helpu i nodi a thrafod opsiynau amgen. Er y gall y penderfyniad i ddileu opsiynau mewn rhai achosion fod yn un cwbl ddilys, er enghraifft oherwydd sensitifrwydd masnachol, mae diffyg gwybodaeth gyson am brosesau arfarnu opsiynau yn rhwystr i wneud penderfyniadau tryloyw.

20 Mae dau Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi trefnu sesiynau herio ychwanegol gyda phob Adran er mwyn ceisio eglurder a chraffu'n fanylach ar gynigion ar gyfer newidiadau. Yn eu barn hwy, nid oes digon o wybodaeth yn cael ei darparu mewn seminarau i'r cynghorwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau yn ehangu eu harfarniadau o opsiynau ar hyn o bryd ac yn eu cynnwys yn eu proses cynllunio busnes.

## Mae gan y Cyngor brosesau datblygedig ar waith er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau

21 Mae gan y Cyngor brosesau datblygedig ar waith er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr a dinasyddion, ynglŷn â newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Ymgynghorir ag aelodau o'r cyhoedd ynghylch Cynigion Cyllidebol blynyddol y Cyngor gan ddefnyddio sianeli a dulliau ymgysylltu sefydledig. Bob blwyddyn, ymgynghorir â sawl grŵp megis: Panel y Dinasyddion, fforymau 50+, Cynghorau Cymuned a Thref ac Undebau Llafur. Mae rhaglen ‘Mewnwelediad’ y Cyngor yn cynnig cyfle i fyfyrwyr chweched dosbarth yn ysgolion y Sir drafod y Cynigion Cyllidebol a rhoi safbwyntiau amgen diddorol.

22 Gall pob dinesydd sydd â mynediad i wefan y Cyngor gwblhau holiadur ar gynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau. Gall y cyhoedd hefyd ofyn cwestiynau uniongyrchol i Gynghorwyr neu swyddogion yng nghyfarfodydd y Cyngor, pwyllgorau craffu neu'r Bwrdd Gweithredol.

23 Cyflwynir canlyniadau'r digwyddiadau ymgynghori ynghylch Cynigion Cyllidebol y Cyngor i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol i'w hystyried, cyn y gwneir penderfyniadau ynghylch pa gynnig ar gyfer newidiadau i wasanaethau a gaiff ei roi ar waith a pha gynigion na chânt eu mabwysiadu.

24 Ceir hefyd enghreifftiau o gynigion ar gyfer newidiadau sylweddol lle yr ymgynghorwyd â staff, rhanddeiliaid allanol, megis y trydydd sector a chyflenwyr nid er elw, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ynghylch gwasanaethau penodol:

- wrth ddatblygu Safon Cartrefi Sir Gaerfyrddin, ymgynghorwyd yn helaeth â thenantiaid ynghylch pa fath o safon y dylid ei mabwysiadu, yn eu hwy barn. Ymgynghorwyd â hwy hefyd ynghylch y ffordd y dylai'r Cyngor wella tai yn gyffredinol. Mae'r Cyngor o'r farn bod ymgysylltu ac ymgynghori yn broses barhaus ac mae'n dal i ymgynghori â thenantiaid a'u cynnwys o ran y ffordd y gellid cynnal y safon.

- yn yr un modd, yn sgil y penderfyniad i ailstrwythuro arfer gwaith cymdeithasol a  oedd yn anelu at sicrhau bod y teulu wrth wraidd y gwasanaeth, mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus, trwyadl yn rhan elfennol o'r broses o newid gwasanaethau, sy'n darparu gwybodaeth a barn hanfodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd er mwyn helpu i lywio fformatau'r gwasanaethau sy'n newid yn uniongyrchol yn y dyfodol.

25 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau i'w brosesau ymgynghori, gan gynnwys amlder, cwmpas a chyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu parhaus.  Ar hyn o bryd, gan fod ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch newidiadau i wasanaethau yn cael ei gynnal, fel arfer, unwaith y flwyddyn a gyda grwpiau tebyg o bobl, mae'r Cyngor yn ystyried y syniadau canlynol i wella ansawdd ac effaith ei brosesau ymgynghori:

- drwy wella ac ehangu ei ymarfer mapio rhanddeiliaid, mae'r Cyngor yn ceisio ymestyn ei ystod o gyfranogwyr mewn ymgynghoriadau ymhlith y boblogaeth, gan gyrraedd yn arbennig y rhai sydd â phrofiad a gwybodaeth am wasanaethau penodol.
- cyflwyno adnodd cyllidebol electronig er mwyn sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd barhau i gael gafael ar wybodaeth gyllidebol er mwyn iddynt allu parhau i gyflwyno eu barn am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhoi'r cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw ar waith. Bydd y wybodaeth hon yn cynyddu gallu'r swyddogion i fonitro effaith y cynigion.
- gwella ansawdd adborth i'r cyhoedd ar ôl ymgynghori, er mwyn galluogi'r cyhoedd i barhau i olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud ac effaith newidiadau i wasanaethau yn y pen draw.
- sicrhau y bydd gweithdrefnau ymgynghori'r Cyngor yn y dyfodol yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynnwys mwy o waith dadansoddi achos ac effaith er mwyn nodi'r effaith a chanlyniadau.

## Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith newidiadau i wasanaethau

26 Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig a hygyrch ar waith ar gyfer monitro gweithgarwch rheoli perfformiad, yn bennaf drwy ei system Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS). Mae system PIMS yn ei gwneud yn bosibl i wybodaeth monitro perfformiad, a ddefnyddir i olrhain ac asesu newidiadau i wasanaethau a gwerthuso eu heffaith, gael ei hechdynnu a'i chofnodi.

27 Caiff adroddiadau gwybodaeth am berfformiad misol, sy'n cynnwys gwybodaeth PIMS, eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol gan y Penaethiaid Gwasanaeth cyfrifol. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i wasanaethau, gan gynnig cyfleoedd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ystyried eu heffaith.

28 Caiff Aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu briffio'n rheolaidd gan yr uwch swyddogion o fewn eu portffolio, ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud ac effaith newidiadau penodol i wasanaethau, gan roi cyfle i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol gefnogi neu herio. At hynny, mae Cyfarwyddwyr yn cyflwyno gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau i'r Bwrdd Gweithredol yn gyffredinol; tra bod Pwyllgorau Craffu yn cael adroddiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn ar effaith ac effeithiolrwydd newidiadau i wasanaethau.

29 Ar wahân i gyflwyno adroddiadau i bwyllgorau, mae llawer o enghreifftiau lle mae cynghorwyr wedi cymryd camau amgen i gasglu gwybodaeth uniongyrchol er mwyn eu helpu i graffu ar effaith newidiadau i wasanaethau:

- ymwelodd y Tîm Rhianta Corfforaethol â ‘phodiau’ Gwaith Cymdeithasol er mwyn siarad yn uniongyrchol â gweithwyr cymdeithasol yn y maes er mwyn canfod pa effaith roedd y rhaglen sylweddol i ailstrwythuro'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol wedi'i chael ar gleientiaid a'u teuluoedd; a
- galluogodd ymweliadau ag ysgolion gan y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant gynghorwyr i siarad yn uniongyrchol â staff, llywodraethwyr a disgyblion hŷn am effaith y Rhaglen Foderneiddio ar ysgol unigol. Cynhaliwyd sawl ymweliad o'r fath.

30 O fewn prosiectau newid a gefnogir gan y rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid, mae'r Cyngor bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella'r prosesau o gasglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau ar y newidiadau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd. Er mai Pennaeth y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am fonitro effaith y newid i'r gwasanaeth o hyd, mae'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid yn helpu gwasanaethau i ddatblygu dangosyddion penodol i fesur canlyniadau a'r effaith, yn ychwanegol at Ddangosyddion Perfformiad sefydledig a thargedau Cyllidebu sy'n Seiliedig ar Flaenoriaethau (PBB). Bydd y Tîm Trawsnewid, Arloesi a Newid yn trefnu archwiliad chwe mis neu flynyddol gyda Phennaeth y Gwasanaeth dan sylw, a fydd yn cynnwys y tîm adolygu gwreiddiol, er mwyn iddynt gymharu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r cynigion cychwynnol. Mae'r rhaglen Trawsnewid, Arloesi a Newid hefyd yn cyflwyno, yn aml ar y cyd â'r gwasanaeth sydd dan sylw, y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau a'r canlyniadau sydd wedi'u cyflawni, yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau craffu a gweithdai sy'n cynnwys swyddogion a chynghorwyr.

31 Os bydd newidiadau i wasanaethau yn cynnwys trefniadau comisiynu allanol neu gydweithio, mae enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau gwerthuso ac adrodd gyda sefydliadau partner, er mwyn monitro cynnydd ac effaith newidiadau i wasanaethau, er enghraifft:

- Yn sgil ailstrwythuro timau gwaith cymdeithasol (‘Reclaiming social work’), rhoddodd adborth gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cymru (IAA), a menter Tîm o amgylch y Teulu (TAF), gyngor ar sut y gellid gwella'r broses ailstrwythuro ymhellach a mesur ei heffaith yn fwy effeithiol. Gwnaeth y sefydliadau hefyd helpu i ddatblygu

cyfres o Ddangosyddion Perfformiad er mwyn mesur effaith strwythur newydd gwaith cymdeithasol yn fwy effeithiol.

- Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, cymerodd y Cyngor ran mewn astudiaeth a fu'n edrych ar y graddau y mae ei raglen adnewyddu tai cymdeithasol (Safon Cartrefi Sir Gaerfyrddin), a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod cartrefi'r Cyngor yn cyrraedd safonau ansawdd tai, yn sicrhau manteision o ran iechyd preswylwyr ac yn cynnig gwerth economaidd.

## Nid yw dull y Cyngor o adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn ddigon clir

32 Nid yw dull y Cyngor o adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn ddigon clir. Nid yw dull y Cyngor o adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau na pha mor aml y mae'n eu hadolygu yn cael eu cyfleu'n glir yn ei Gyfansoddiad.

33 Mae gan y Cyngor ddwy set wahanol o drefniadau ar gyfer adolygu ei drefniadau llywodraethu, sef y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol. Ar hyn o bryd mae'r ddau grŵp hyn yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

34 Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys uwch swyddogion yn bennaf, gyda Dau Aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r grŵp yn cynnal adolygiadau o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cofnodi ac yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd, neu y bwriedir eu cymryd, i wella trefniadau llywodraethu.

35 Mae'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol yn grŵp trawsbleidiol a arweinir gan gynghorwyr sydd hefyd yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu. Ffurfiwyd y grŵp hwn i ddechrau er mwyn ystyried canfyddiadau adolygiad cymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a gomisiynwyd gan y Cyngor, yn 2015. Bu'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol yn effeithiol wrth ymdrin â materion llywodraethu corfforaethol. Ymatebodd yn dda i sylwadau adolygiad cymheiriaid CLlLC ar ei drefniadau, gan lunio cynlluniau gweithredu clir i ysgogi newid o ganlyniad. Cynigiodd y grŵp hwn sawl newid sylweddol i gyfansoddiad y Cyngor, a gymeradwywyd wedyn gan y Cyngor llawn.

36 Mae angen i'r Cyngor ystyried cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Gweithgor Adolygu Corfforaethol er mwyn egluro eu priod gyfrifoldebau am asesu ac adolygu ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru